OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1469

# Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

## RHAN 2

## Penodi aelodau IGDC

### Penodi aelodau

**3.**—(1) Penodir aelodau IGDC fel a ganlyn—

(a) penodir y cadeirydd, yr is-gadeirydd a hyd at 5 o aelodau eraill nad ydynt yn swyddogion gan Weinidogion Cymru;

(b) penodir y prif swyddog yn unol â pharagraff (3);

(c) penodir yr aelodau sy'n swyddogion yn unol â pharagraff (4);

(d) penodir yr aelodau cyswllt yn unol â pharagraff (6).

(2) Ni chaiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion fod yn gyflogeion IGDC.

(3) Penodir y prif swyddog gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion, ar wahân i'r prif swyddog cyntaf a benodir gan Weinidogion Cymru.

(4) Penodir yr aelodau sy'n swyddogion fel a ganlyn:

(a) penodir y swyddog cyllid cyntaf a'r swyddog clinigol cyntaf gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion;

(b) penodir yr holl aelodau eraill sy'n swyddogion gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion a'r prif swyddog.

(5) Mae'r aelodau sy'n swyddogion i fod yn gyflogeion IGDC.

(6) Penodir yr aelodau cyswllt fel a ganlyn:

(a) caiff Gweinidogion Cymru, neu IGDC gan weithredu â chydsyniad Gweinidogion Cymru, benodi hyd at 2 aelod cyswllt, a

(b) pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan IGDC, caniateir penodi 1 aelod cyswllt yn unol â rheoliad 4.

### Penodi aelod cyswllt yr undebau llafur

**4.**—(1) Pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan IGCD, rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion wahodd pob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan IGCD i enwebu ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt.

(2) Rhaid i'r gwahoddiad bennu'r cyfnod y mae enwebiad i'w wneud ynddo a'r modd y mae enwebiad i'w wneud.

(3) Rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion benodi person o blith yr ymgeiswyr cymwys, os enwebir rhai, yn aelod cyswllt.

(4) Nid yw person yn ymgeisydd cymwys i’w enwebu o dan baragraff (1) ond os yw’r person—

(a) yn aelod o staff IGDC,

(b) yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan IGDC, ac

(c) wedi ei enwebu o fewn y cyfnod a bennir o dan baragraff (2).

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion**

**5.** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y trefniadau ar gyfer penodi personau yn aelodau nad ydynt yn swyddogion yn ystyried y cod a gyhoeddir gan y Gweinidog dros Swyddfa’r Cabinet sy’n nodi—

(a) yr egwyddorion ar gyfer penodiadau cyhoeddus, a

(b) y canllawiau ar yr arferion i’w dilyn mewn perthynas â gwneud penodiadau cyhoeddus.